Corff Sylfaen Pêl-droed Cymru
Parc y Ddraig,
Pentref Chwaraeon
Rhyngwladol Casnewydd,
Casnewydd
NP19 4RA

Cymru Football Foundation
Dragon Park,
Newport International Sports
Village,
Newport
NP19 4RA

T 01633 282911

www.cff.cymru

CRONFA OFFER ADDAS AR GYFER Y DYFODOL SEFYDLIAD PÊL-DROED CYMRU (CFF)
DOGFEN GANLLAWIAU

CYFLWYNIAD I'R BROSES

Cyn i chi benderfynu bwrw ymlaen â'ch cais, darllenwch y cyfarwyddiadau ar y ffurflen gais ac ar y rhestr wirio i gadarnhau bod eich prosiect yn bodloni gofynion y rhaglen neu'r gronfa.

Sylwch hefyd ar y cyngor cyffredinol canlynol:

1. Ar gyfer y Gronfa Offer Addas ar gyfer y Dyfodol, bydd y Dyfarniadau Grant:
    a. Yn cael uchafswm Dyfarniad Grant o hyd at £25,000
    b. Angen o leiaf 15% o gyllid partneriaeth (gall hyn ddod gan gyllidwyr eraill neu o gronfeydd yr ymgeiswyr eu hunain)

2. Yn anffodus, bydd yn rhaid i Sefydliad Pêl-droed Cymru wrthod unrhyw ffurflenni anghyflawn neu sydd wedi'u llenwi'n anghywir, ac sy'n eu hatal rhag asesu'r prosiect yn llawn. Dim ond ceisiadau cymwys fydd yn cael eu hasesu ar gyfer cyllid.

3. Ar ôl i ni dderbyn a gwneud cofnod o'ch ffurflen gais a'ch dogfennau ategol hanfodol, byddwn yn anfon cadarnhad atoch drwy e-bost. Cofiwch, oherwydd nifer fawr y ceisiadau a gawn, ychydig iawn o gysylltiad a gewch gyda Sefydliad Pêl-droed Cymru yn ystod ffenestr y rhaglen. Nid oes modd darparu adborth unigol. I gael cymorth a chyngor ar y broses gwneud cais, dylech gysylltu â datblygwr eich clwb.

4. **Bydd y Gronfa Offer Addas ar gyfer y Dyfodol yn ailagor ar 1 Medi 2026 am 9am ac yn cau ar 30 Hydref 2026 am 8pm.**

    - **Sylwch mai hwn yw'r dyddiad cau. Bydd ceisiadau sy'n cyrraedd ar ôl yr amser hwn yn cael eu gwrthod yn awtomatig. Yn anffodus, ni roddir estyniadau i'r dyddiad cau hwn yn y rhaglen gyllido hon.**
    - Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cais hefyd yw'r dyddiad olaf ar gyfer derbyn yr holl ddogfennau ategol. Bydd methu â chyflwyno'r dogfennau angenrheidiol erbyn y

Corff Sylfaen Pêl-droed Cymru
Parc y Ddraig,
Pentref Chwaraeon
Rhyngwladol Casnewydd,
Casnewydd
NP19 4RA

Cymru Football Foundation
Dragon Park,
Newport International Sports
Village,
Newport
NP19 4RA

T 01633 282911

www.cff.cymru

dyddiad cau yn arwain at wrthod y cais yn awtomatig oherwydd na fydd yn bodloni'r gofynion cyflwyno.

5. **Mae Sefydliad Pêl-droed Cymru yn cadw'r hawl i gau'r gronfa ar unrhyw adeg.**

6. Mae'n bwysig nodi, yn dilyn y panel, y gall y dyfarniad grant a gynigir fod yn wahanol i'r swm y gofynnir amdano yn eich cais. Rydym yn cadw'r hawl i bennu gwerth y dyfarniad ar sail asesiad o angen ariannol, y gyllideb sydd ar gael, ac unrhyw gyllid blaenorol a ddarparwyd i'r clwb.

7. Ar ôl i'r panel ystyried pob cais dilys a chymwys, byddwn yn gwneud un o'r pethau canlynol:
   i Yn dyfarnu grant i'ch sefydliad am fod eich prosiect yn bodloni'r gofynion, yn cael ei ystyried yn flaenoriaeth digon uchel o fewn y gyllideb sydd ar gael, ac yn gallu bwrw ymlaen.

   ii Gall y grant terfynol a ddyfernir fod yn wahanol i'r swm y gofynnir amdano yn eich cais. Rydym yn cadw'r hawl i bennu gwerth y dyfarniad ar sail asesiad o angen ariannol, y gyllideb sydd ar gael, ac unrhyw gyllid blaenorol a ddarparwyd i'r clwb.

MEINI PRAWF CYMHWYSEDD

Eitemau cymwys i'w hystyried dan Raglen Offer Addas ar gyfer y Dyfodol Sefydliad Pêl-droed Cymru

Cronfa grantiau cyfalaf yw hon. Mae 'cyfalaf' yn golygu seilwaith diriaethol, ased parhaol neu osodion a gwaith uwchraddio/gwelliannau fel rhan o brosiect, offer mawr a sefydlog nad ydynt yn bersonol.

Disgwylir i'r cyllid cyfalaf ddarparu cyfleusterau newydd, neu welliannau a gwaith uwchraddio i'r seilwaith presennol. Mae'r prosiectau canlynol yn gymwys i gael cyllid drwy'r Gronfa Offer Addas ar gyfer y Dyfodol, yn y rownd hon:

CRONFA OFFER ADDAS AR GYFER Y DYFODOL – PROSIECTAU CYMWYS

Corff Sylfaen Pêl-droed Cymru
Parc y Ddraig,
Pentref Chwaraeon
Rhyngwladol Casnewydd,
Casnewydd
NP19 4RA

Cymru Football Foundation
Dragon Park,
Newport International Sports
Village,
Newport
NP19 4RA

T 01633 282911

www.cff.cymru

• Cyfleusterau storio h.y. cynhwysydd storio neu sied • Offer cynnal a chadw'r cae

CRONFA OFFER ADDAS AR GYFER Y DYFODOL – PROSIECTAU ANGHYMWYS
• Nid yw ffensys diogelwch, pyst gôl na llifoleuadau symudol yn gymwys yn y rownd 26/27 hon. • Offer dros dro, offer personol, neu offer bach sydd ond yn debygol o bara am gyfnod cyfyngedig fel bibiau, conau, peli, neu offer ar gyfer ystafelloedd newid/clybiau fel byrddau, cadeiriau, dodrefn bar. • Prosiectau sydd wedi dechrau yn barod - ni ystyrir unrhyw gyllid ôl-weithredol. • Ni chefnogir prosiectau refeniw, h.y. prynu tir/cyfleusterau yn fentrus, astudiaethau dichonoldeb, cyllid datblygu ar gyfer hyfforddiant, a swyddi addysgol a chyflogedig. • Gwaith cynnal a chadw ac atgyweirio ar offer neu gyfleusterau presennol. • Ceisiadau i wella caeau pêl-droed er mwyn bodloni gofynion trwydded y gynghrair – mae Sefydliad Pêl-droed Cymru yn rhedeg rhaglen gyllido ar wahân, sef Cronfa Wella Stadia Sefydliad Pêl-droed Cymru, ar gyfer Clybiau pêl-droed yn Haenau 1-4 y Dynion a Haenau 1-3 y Merched. Mae rhagor o wybodaeth am y gronfa hon ar gael ar ein gwefan.

Archwiliadau cymhwysedd ychwanegol

Nifer y ceisiadau fesul sefydliad

- Dim ond un cais y cewch ei gyflwyno ar gyfer un prosiect mewn unrhyw leoliad. Fodd bynnag, gall sefydliadau sy'n gyfrifol am fwy nag un safle, h.y. Awdurdodau Lleol, gyflwyno ceisiadau ar wahân ar gyfer safleoedd gwahanol.

Corff Sylfaen Pêl-droed Cymru
Parc y Ddraig,
Pentref Chwaraeon
Rhyngwladol Casnewydd,
Casnewydd
NP19 4RA

Cymru Football Foundation
Dragon Park,
Newport International Sports
Village,
Newport
NP19 4RA

T 01633 282911

www.cff.cymru

- Os oes gennych brosiect 'ar waith' yn barod yn dilyn rownd gyllido flaenorol drwy Gronfa Offer, Cronfa Cynaliadwyedd, Cronfa Amgylcheddau Amdani Hi, Cronfa Gwella Stadia neu Raglen Cyfleusterau Sefydliad Pêl-droed Cymru, ni fyddwch yn gymwys i wneud cais am unrhyw grantiau pellach nes bydd y prosiect hwnnw wedi'i gwblhau.
- Wrth wneud penderfyniadau cyllido, bydd y panel dyfarnu yn ystyried y cymorth a gafodd ymgeiswyr fel rhan o raglenni cyllido blaenorol.
- Sylwch, os yw'r clwb wedi methu â chadw at amodau blaenorol dyfarniadau grant gan Sefydliad Pêl-droed Cymru, bydd hyn yn effeithio ar ei gais. Rhaid cwblhau unrhyw amodau sy'n weddill cyn gwneud cais i raglen gyllido newydd.

Lleoliad

- Mae'n rhaid i'r prosiect/asedau fod yng Nghymru, neu mae'n rhaid i'r ymgeisydd fod yn gysylltiedig â Chymdeithas Bêl-droed Cymru.

Dyddiad dechrau a gorffen y prosiect

- Dylai ymgeiswyr fod yn ymwybodol bod y rhan fwyaf o gyllid Sefydliad Pêl-droed Cymru yn dod o ffynonellau'r Llywodraeth – mae hyn yn golygu bod yn rhaid i brosiectau a gefnogir ddechrau a chael eu cwblhau o fewn y flwyddyn ariannol gyllido.
- Dylid dechrau prosiectau offer o fewn mis i ddyddiad dyfarnu'r Llythyr Cynnig Grant.
- Bydd pob llythyr cynnig a anfonir ar gyfer prosiect llwyddiannus yn nodi'n glir y dyddiad cwblhau gofynnol ac yn amlinellu cyfnod cyflawni o dri mis a fydd yn dechrau ar y dyddiad cyhoeddi.
- Gallai methu â chwblhau'r prosiect yn ystod y cyfnod hwn arwain at fforffedu'r cyllid grant.
- Rhaid i ymgeiswyr llwyddiannus roi gwybod i Sefydliad Pêl-droed Cymru cyn gynted â phosibl os nad ydynt yn gallu cadw at y terfynau amser a nodir yn eu llythyr cynnig. Os na fyddir yn gwneud hynny, gallai arwain at dynnu'r grant yn ôl ac ailddyrannu'r cyllid i brosiect arall.

Corff Sylfaen Pêl-droed Cymru
Parc y Ddraig,
Pentref Chwaraeon
Rhyngwladol Casnewydd,
Casnewydd
NP19 4RA

Cymru Football Foundation
Dragon Park,
Newport International Sports
Village,
Newport
NP19 4RA

T 01633 282911

www.cff.cymru

Diogelwch Deiliadaeth

- Mae angen i bob ymgeisydd ddarparu deiliadaeth sy'n dangos bod y cyfleuster wedi bod yn cael ei ddefnyddio am o leiaf 10 mlynedd, megis dangos tystiolaeth o les gyfredol ar gyfer y cyfleuster.
- Pan fydd ymgeisydd yn agosáu at ddiwedd cyfnod ei les bresennol, byddwn yn derbyn tystiolaeth ysgrifenedig sy'n cadarnhau ymrwymiad i ymestyn y les. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r dystiolaeth hon ddangos y bydd gan yr ymgeisydd o leiaf 10 mlynedd o ddiogelwch deiliadaeth yn dilyn yr estyniad.
- Os yw'r tir a ddefnyddir gan glwb pêl-droed yn eiddo i gymdeithas chwaraeon neu'n cael ei reoli ganddi, mae'n rhaid darparu llythyr ffurfiol o ymrwymiad gan y gymdeithas. Dylai'r llythyr hwn gadarnhau diogelwch deiliadaeth ar gyfer y tir, gan gynnwys a yw'n cael ei ddal ar sail rhydd-ddaliad neu, os yw'n lesddaliad, nifer y blynyddoedd sy'n weddill ar y les.
- Ar ben hynny, mae'n rhaid cyflwyno llythyr ar wahân sy'n cadarnhau y bydd y clwb pêl-droed yn cael parhau i ddefnyddio'r tir am o leiaf 10 mlynedd.
- Cyfeiriwch at ein Dogfen Ganllawiau Diogelwch Deiliadaeth i gael rhagor o wybodaeth am y mathau o drefniadau deiliadaeth y byddem yn ystyried eu bod yn gymwys i gael cymorth. Yn ogystal â'r wybodaeth ychwanegol y mae angen ei darparu i gefnogi peth ddiogelwch deiliadaeth.
- Sylwch nad yw'r rhestr hon yn un gynhwysfawr, a byddwn yn asesu trefniadau diogelwch deiliadaeth eraill nad ydynt wedi'u hamlinellu yn y ddogfen hon fesul achos.

Corff Sylfaen Pêl-droed Cymru
Parc y Ddraig,
Pentref Chwaraeon
Rhyngwladol Casnewydd,
Casnewydd
NP19 4RA

Cymru Football Foundation
Dragon Park,
Newport International Sports
Village,
Newport
NP19 4RA

T 01633 282911

www.cff.cymru

Prosiectau adeiladu, h.y. yn achos cyfleusterau storio, mae'n rhaid i chi gael perchnogaeth, neu gytundeb cyfreithiol i feddiannu'r safle

- Wrth gyflwyno eich cais, bydd angen i chi gynnwys tystiolaeth o'ch teitl cyfreithiol/eich defnydd o'r ardal i'w datblygu am o leiaf deng mlynedd. Neu, gallwch gyflwyno llythyr yn dangos y bydd y Rhydd-ddeiliad yn ymrwymo i gytundeb o ddim llai na 10 mlynedd.
- Os mai sefydliad arall sy'n berchen ar y safle (ysgol, cyngor cymuned, ac ati), dylai'r cais gael ei wneud gan y sefydliad sy'n lletya.
- Mae'n ofynnol i ymgeiswyr ddarparu tystiolaeth, erbyn y dyddiad cau a nodir, sy'n dangos bod caniatâd cynllunio wedi'i sicrhau neu gadarnhad ffurfiol nad oes ei angen, ynghyd â thystiolaeth ysgrifenedig o gydsyniad y landlord ar gyfer gosod y cynhwysydd storio yn y cyfleuster; bydd methu â gwneud hynny'n arwain at wrthod y cais yn awtomatig.

ASESIAD CAE CHWARAE GLASWELLT

- Bydd partneriaeth newydd Sefydliad Pêl-droed Cymru gyda'r Ground Maintenance Association ("*GMA*") yn darparu gwasanaeth cyngor ar gaeau i Sefydliadau. Bydd Cynghorydd Caeau Chwarae Rhanbarthol ("*RPA*") yn darparu asesiad o'r cae a gradd safonau ansawdd perfformiad, ochr yn ochr ag argymhellion pwrpasol ar sut i wella ansawdd y cae a pha fath o offer sydd ei angen
- Ni fydd unrhyw geisiadau am Offer Cynnal a Chadw Caeau Chwarae Glaswellt yn cael eu hystyried nes bydd Ymgeisydd wedi derbyn adroddiad sy'n cynnwys yr wybodaeth uchod yn dilyn ymweliad gan RPA.
    - o Bydd unrhyw geisiadau a gyflwynir i Sefydliad Pêl-droed Cymru cyn ymweliad gan RPA yn cael eu gwrthod yn awtomatig
- Rhaid i'r argymhellion a wneir gan yr RPA fod yn sail i'r cais am yr eitemau hyn.
- Un o amodau unrhyw grant o'r math hwn yw bod o leiaf ddau aelod/gwirfoddolwr mewn clwb neu sefydliad sy'n gwneud cais wedi ennill tystysgrif GMA Lefel 1

YMWADIAD

Nid yw derbyn ymweliad gan RPA a/neu adroddiad dilynol yn gwarantu buddsoddiad gan Sefydliad Pêl-droed Cymru ("*CFF*").

Corff Sylfaen Pêl-droed Cymru
Parc y Ddraig,
Pentref Chwaraeon
Rhyngwladol Casnewydd,
Casnewydd
NP19 4RA

Cymru Football Foundation
Dragon Park,
Newport International Sports
Village,
Newport
NP19 4RA

T 01633 282911

www.cff.cymru

Mae'r holl fuddsoddiadau a wneir gan Sefydliad Pêl-droed Cymru yn cael eu dyfarnu ar ôl i banel cyllid grant ystyried yn ofalus yr holl ffactorau, gan gynnwys angen, cyllideb ac effaith arfaethedig. Mae'n bwysig nodi nad yw cael ymweliad gan y GMA yn gwarantu y bydd cyllid yn cael ei ddyfarnu.

Offer Cynnal a Chadw'r Tir

- Bydd ymgeiswyr yn cael cynnig cyfle i gael cymorth ariannol ar gyfer offer cynnal a chadw caeau chwarae glaswellt. Felly, mae'n hanfodol bod clybiau'n rhoi ystyriaeth gynhwysfawr i'r holl eitemau a argymhellir—yn enwedig y rhai a nodwyd gan y Cynghorydd Caeau Chwarae Rhanbarthol (RPA)—wrth benderfynu ar yr offer sydd wedi'i gynnwys yn eu cais.
- Er enghraifft, pan fydd clwb wedi cael cyngor i gael tractor, teclyn torri gwair, holltwr dwfn, ac offer trin tywarch, ond yn dewis gwneud cais am dractor, teclyn torri gwair a holltwr dwfn yn unig, ni fydd unrhyw gais dilynol am yr offer trin tywarch yn cael ei ystyried.
- Anogir ymgeiswyr yn gryf i gael dyfynbrisiau gan gyflenwyr dibynadwy. Gall y cyflenwyr hyn roi cymorth ychwanegol, gan gynnwys gwarantau, gwasanaethau gosod, ac arweiniad ar ddefnyddio a chynnal a chadw offer yn briodol. Mae'r dull hwn yn hyrwyddo'r gwaith o gaffael offer o ansawdd uchel ac yn cefnogi ateb cynaliadwy a hirdymor ar gyfer cynnal a chadw caeau chwarae.

MESURAU BLAENORIAETHU SEFYDLIAD PÊL-DROED CYMRU

- **Cynyddu cyfranogiad** mewn chwaraeon, gan wella lles meddyliol a chorfforol y rhai sy'n cymryd rhan.
- Cynyddu nifer y **cyfleusterau aml-chwaraeon er mwyn cael mwy o bobl i gymryd rhan mewn chwaraeon ar wahân i bêl-droed**, gan ymgysylltu'n ehangach â'r gymuned (yn ogystal â phêl-droed, yn rheolaidd ac yn gynaliadwy).

Corff Sylfaen Pêl-droed Cymru
Parc y Ddraig,
Pentref Chwaraeon
Rhyngwladol Casnewydd,
Casnewydd
NP19 4RA

Cymru Football Foundation
Dragon Park,
Newport International Sports
Village,
Newport
NP19 4RA

T 01633 282911

www.cff.cymru

- Gwella profiadau ac amgylcheddau sy'n sicrhau cyfranogiad, twf a chynhaliaeth drwy ddarparu cyfleusterau o ansawdd uchel sy'n diwallu anghenion y gymuned ehangach, ac sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldebau.
- Datblygu clybiau cryfach a mwy cynaliadwy sy'n canolbwyntio ar y gymuned, ac sydd â mwy o chwaraewyr o bob oed a chefndir.
- Dyblu nifer y menywod a merched sy'n chwarae pêl-droed drwy ddarparu cyfleusterau addas ac ysbrydoledig.

Mesurau blaenoriaethau ychwanegol penodol

- Prosiectau **sydd o fudd i/wedi'u lleoli mewn ardaloedd daearyddol** lle ceir lefelau uchel o Amddifadedd Lluosog.
- Prosiectau lle ceir **tystiolaeth o ddiffyg cyfleusterau/galw**, a lle gall gwella ansawdd cyfleusterau presennol gael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth bresennol.
- Ymgeiswyr sydd â **hanes blaenorol o sicrhau** twf a datblygiad gyda'u cyfleusterau presennol.
- Ymgeiswyr sy'n **dangos sut y bydd y prosiect yn cael ei reoli i sicrhau'r canlyniadau a ddymunir** a chyda phartneriaethau cryf ar waith.
- Ymgeiswyr sy'n dangos sut maen nhw, fel sefydliad, a'r prosiect yn cyfrannu at Strategaeth Cynaliadwyedd Cymdeithas Bêl-droed Cymru.
- Ymgeiswyr sy'n dangos sut y bydd yr offer presennol yn cael ei waredu mewn ffordd ecogyfeillgar neu'n cael ei ailgylchu

- Mae'r prosiect yn dangos potensial clir i wella cynaliadwyedd y clwb.
- Sgôr/iau safon ansawdd y caeau yr effeithir arnynt.
- Nifer y timau a chyfranogwyr y bydd y prosiect yn effeithio'n uniongyrchol arnynt.
- Nifer y caeau chwarae glaswellt y bydd y cyllid yn effeithio arnynt.

MATERION ARIANNOL PWYSIG

- **Cyllid partneriaeth**
  - Bydd cyllid partneriaeth o leiaf 15%.

Corff Sylfaen Pêl-droed Cymru
Parc y Ddraig,
Pentref Chwaraeon
Rhyngwladol Casnewydd,
Casnewydd
NP19 4RA

Cymru Football Foundation
Dragon Park,
Newport International Sports
Village,
Newport
NP19 4RA

T 01633 282911

www.cff.cymru

- Bydd unrhyw geisiadau sy'n cynnwys ceisiadau grant 100% tuag at gostau cyffredinol y prosiect neu geisiadau am gyfraniad o fwy nag 85% yn cael eu gwrthod yn awtomatig.
- Os oes gennych unrhyw gwestiynau am gyllid partneriaeth, neu os ydych yn cael trafferth cael gafael ar gymorth, mae croeso i chi gysylltu â Datblygwr eich Clwb a/neu Awdurdod Lleol oherwydd efallai y gallant eich helpu.

Costau'r prosiect

- Mewn achosion lle nad yw'r ymgeisydd wedi cofrestru ar gyfer TAW, ac yn methu ag adennill TAW, bydd y costau TAW yn dod yn rhan o gost y prosiect, a bydd cyfanswm y ffigur ar gyfer yr hawliad grant yn cynnwys cyfraniad at y costau TAW a fydd yn cael eu hysgwyddo.
- Pan fydd costau prosiect yn mynd yn uwch, efallai na fydd Sefydliad Pêl-droed Cymru mewn sefyllfa i gynyddu'r grant.
- Pan fydd costau prosiect yn mynd yn llai, bydd grant Sefydliad Pêl-droed Cymru yn cael ei leihau yn unol â'r swm cyfatebol, a bydd disgwyl i gyfraniad yr ymgeisydd aros fel y'i cymeradwywyd gan y Panel, ac fel sydd wedi'i nodi yn y llythyr cynnig.
- Dim ond gyda chyllid partneriaeth wedi'i gadarnhau y dylai ymgeiswyr wneud cais. Mae'n bosibl y bydd cais a gyflwynir heb gyllid partneriaeth wedi'i gadarnhau yn cael ei wrthod.

CANLLAWIAU DATBLYGU PROSIECT CYFFREDINOL

- Dylai pob prosiect a gynigir ddangos canlyniadau effaith clir a mesuradwy – gan ddangos pwy fydd yn elwa fwyaf o'r prosiect a sut y cyflawnir y manteision. Dim ond yr wybodaeth a ddarperir yn y cais y gallwn ei hasesu; felly, gwnewch yn siŵr eich bod wedi llenwi pob adran yn glir.
- Ar gyfer pob prosiect cynhwysydd storio, gwnewch yn siŵr bod yr holl archwiliadau perthnasol wedi cael eu gwneud cyn cyflwyno cais am y Gronfa Offer, h.y. Caniatâd cynllunio a rhydd-ddeiliad, manylebau, ac ati. **Bydd methu â chyflwyno tystiolaeth o hyn yn arwain at wrthod eich cais.**

Corff Sylfaen Pêl-droed Cymru
Parc y Ddraig,
Pentref Chwaraeon
Rhyngwladol Casnewydd,
Casnewydd
NP19 4RA

Cymru Football Foundation
Dragon Park,
Newport International Sports
Village,
Newport
NP19 4RA

T 01633 282911

www.cff.cymru

- **Caffael agored -** os bydd grant yn cael ei ddyfarnu, mae'n rhaid i ymgeiswyr sicrhau dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith (mae angen dau dendr/dyfynbris o leiaf). Os yw cyflenwr y deunyddiau neu offer yn swyddog neu'n aelod o'r sefydliad, rhaid i'r broses gaffael a rheoli prosiectau gael ei rheoli ar wahân mewn ffordd agored a thryloyw; rhaid iddynt ddangos gwerth am arian drwy'r broses gaffael ofynnol
a'i mesur yn erbyn manyleb glir.

- **Nid oes modd hawlio costau ôl-weithredol – ni all y gwaith fod wedi dechrau'n barod.**
- Ni ddylai ymgeiswyr fod wedi prynu unrhyw offer y mae'r sefydliad yn gofyn am gyllid grant ar ei gyfer.
  - Os bydd eich cais yn llwyddiannus, **rhaid i chi beidio â dechrau'r gwaith/prynu eitemau na gwneud archeb nes bydd Sefydliad Pêl-droed Cymru wedi rhoi 'caniatâd i chi fwrw ymlaen'.** Gall peidio â chydymffurfio effeithio ar eich gallu i gael unrhyw gymorth grant.
  - Os na fyddir yn cydymffurfio, bydd yn arwain at dynnu'r grant yn ôl, ac ni fydd yr ymgeisydd yn cael cyllid gan Sefydliad Pêl-droed Cymru tuag at y prosiect.

Corff Sylfaen Pêl-droed Cymru
Parc y Ddraig,
Pentref Chwaraeon
Rhyngwladol Casnewydd,
Casnewydd
NP19 4RA

Cymru Football Foundation
Dragon Park,
Newport International Sports
Village,
Newport
NP19 4RA

T 01633 282911

www.cff.cymru

RHESTR WIRIO OLAF

Blwch Ticio	Eitemau ar gyfer POB cais
	Sicrwydd deiliadaeth – Tystiolaeth o Lesddaliad / Rhydd-ddaliad presennol sydd ar waith i gynnwys ffiniau/perimedrau. Mae angen o leiaf deng mlynedd arnom ar gyfer unrhyw brosiectau adeiladu
	Dau ddyfynbris ar wahân ar gyfer pob eitem – Llwythwch ddau ddyfynbris i fyny ar gyfer pob eitem, ac yn eich cais nodwch pa un rydych wedi'i ddewis a pham.
	Dogfennau Yswiriant Adeiladau a Chynnwys
	Dogfennau Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus
	Llythyrau gan gyllidwyr sydd wedi'u cadarnhau – Os yw'n berthnasol, cyflwynwch lythyrau cadarnhau gan y cyllidwyr eraill i roi tystiolaeth briodol o gyllid partner.

Blwch Ticio	Eitemau ychwanegol, os yw'n berthnasol
	Cydsyniad cynllunio a rhydd-ddeiliad - Wrth gyflwyno eich cais, mae'n rhaid cyflwyno copi o'ch cydsyniad cynllunio llawn, neu lythyr gan yr Awdurdod Cynllunio yn cadarnhau'r dyddiad y bydd penderfyniad yn cael ei wneud am eich cynigion
	Llythyrau ynghylch defnydd arfaethedig – Llythyrau gan Sefydliadau neu Grwpiau Cymunedol a fydd yn cael budd o'r prosiect. Dylai hyn gynnwys defnydd arfaethedig yn wythnosol, gan gynnwys sawl wythnos dros y flwyddyn a pharodrwydd i dalu ardrethi'r cyfleuster
	Cynlluniau defnydd – Nodwch sut mae cyfleuster y prosiect yn cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd

Corff Sylfaen Pêl-droed Cymru
Parc y Ddraig,
Pentref Chwaraeon
Rhyngwladol Casnewydd,
Casnewydd
NP19 4RA

Cymru Football Foundation
Dragon Park,
Newport International Sports
Village,
Newport
NP19 4RA

T 01633 282911

www.cff.cymru

MYND TRWY'R BROSES O WNEUD CAIS CAM WRTH GAM

Dyma ganllaw ar gyfer llenwi'r ffurflen gais. Enghreifftiau yw'r rhain ac ni ddylid ystyried eu bod yn rhagnodol.

Cofiwch mai dim ond ar sail yr wybodaeth a gyflwynir y gellir asesu ceisiadau. Dylai ymgeiswyr sicrhau bod pob adran wedi'i llenwi, gan gynnwys gwybodaeth glir a manwl drwyddi draw.

1. GWYBODAETH AM YR YMGEISYDD

1.1 ENW SWYDDOGOL Y SEFYDLIAD SY'N YMGEISIO: Rhowch enw Cyfreithiol / Swyddogol y sefydliad

1.2 STATWS CYFREITHIOL Y SEFYDLIAD SY'N YMGEISIO: Dywedwch wrthym beth yw Statws Cyfreithiol eich

Sefydliad, dewiswch o blith yr opsiynau sydd ar gael – Os gallech ddewis mwy nag un ateb (h.y. Cwmni Cyfyngedig drwy Warant ac sydd â statws CASC), yna dewiswch strwythur y cwmni o'r rhestr ac yna rhoi gwybod i ni am y statws ychwanegol pan fyddwch yn anfon y ffurflen gais atom.

1.3 CYNRYCHIOLWYR Y SEFYDLIAD: Rhowch fanylion ddau gynrychiolydd y sefydliad a fydd yn arwain ar y cais hwn. Sylwch na chaiff y ddau lofnodwr fod yn rhan o unrhyw waith y contractwr/cyflenwr sy'n dilyn y cais hwn.

1.4 GWYBODAETH AM Y CLWB (CLYBIAU SY'N YMGEISIO YN UNIG): Rhowch nifer y TIMAU yn y ddwy res uchaf, a nifer y CHWARAEWYR yn y pum rhes nesaf. Y golofn gyntaf yw cyfanswm pob un sydd wedi'i gofrestru'n ffurfiol gan y gymdeithas, a'r ail golofn yw'r nifer sy'n cymryd rhan yn y cyfleuster a

Corff Sylfaen Pêl-droed Cymru
Parc y Ddraig,
Pentref Chwaraeon
Rhyngwladol Casnewydd,
Casnewydd
NP19 4RA

Cymru Football Foundation
Dragon Park,
Newport International Sports
Village,
Newport
NP19 4RA

T 01633 282911

www.cff.cymru

fydd yn derbyn y cyllid. *Er enghraifft, efallai fod gan Glwb 400 o chwaraewyr cofrestredig ar draws 25 tîm, ond dim ond 50 chwaraewr a 3 thîm sy'n cymryd rhan ar y cae chwarae glaswellt y ceisir offer cynnal a chadw ar ei gyfer.*

1.5 GWYBODAETH AM EICH SEFYDLIAD:

Strwythur Llywodraethu'r Sefydliad: Dywedwch wrthym sut rydych chi'n cael eich rheoli ar hyn o bryd. Sut mae'r gwaith o drefnu a darparu gweithgareddau/cyfleusterau yn cael ei reoli? Yn achos clybiau, a oes gennych chi un pwyllgor sy'n gofalu am y clwb cyfan, neu nifer o bwyllgorau sy'n rheoli gwahanol agweddau ar y clwb? Hefyd rhowch fanylion cynrychiolwyr menywod, pobl ifanc a grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn eich strwythurau llywodraethu.

Gweithgareddau a Gynigir gan y Sefydliad: Eglurwch y gweithgareddau pêl-droed sy'n cael eu darparu gan eich sefydliad neu sy'n cael eu cynnal yno, gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth pêl-droed at ddibenion menywod a merched, anabledd neu hamdden. Dylech hefyd gynnwys gweithgareddau chwaraeon eraill a chynigion cymunedol (oddi ar y cae) a ddarperir gan eich sefydliad neu sy'n cael eu cynnal yno.

Nifer y Gwirfoddolwyr/Gweithwyr Cyflogedig a'u Rolau: Dywedwch wrthym yn gryno sawl rôl wahanol sydd yn eich sefydliad. Gallai hyn gynnwys *hyfforddwyr gwirfoddol neu gyflogedig, athrawon, gweinyddwyr, rheolwr cyfathrebu, rheolwyr cyfleusterau a chynnal a chadw, ac ati.*

Rhowch drosolwg byr o ddyheadau'r 'Darlun Mawr' ar gyfer eich Sefydliad, gan roi sylwadau ar weledigaeth y Sefydliad ar gyfer y gwaith datblygu, ynghyd â'r cyfleusterau sydd eu hangen i gyflawni'r weledigaeth: Dywedwch wrthym beth yw prif nodau eich sefydliad yn y tymor byr a'r tymor hwy. Gallai hyn gynnwys mwy o chwaraewyr (os felly, pa grwpiau, h.y. merched), mwy o wirfoddolwyr, datblygu partneriaethau cymunedol neu uwchraddio cyfleusterau'r clwb (os felly, pa gyfleusterau).

2. GWYBODAETH AM Y PROSIECT

2.1 MATH O BROSIECT: Dywedwch wrthym a ydych chi'n ystyried eitem newydd neu uwchraddio eitem flaenorol. Os mai dim ond un eitem sydd dan sylw, llenwch un adran yn unig. Os oes mwy na dwy eitem, gellir nodi'r rhain yn adran 2.2 Disgrifiad o'r Prosiect.

Corff Sylfaen Pêl-droed Cymru
Parc y Ddraig,
Pentref Chwaraeon
Rhyngwladol Casnewydd,
Casnewydd
NP19 4RA

Cymru Football Foundation
Dragon Park,
Newport International Sports
Village,
Newport
NP19 4RA

T 01633 282911

www.cff.cymru

2.2 DISGRIFIAD O'R PROSIECT: Dywedwch wrthym pa eitemau penodol rydych chi'n bwriadu eu cynnwys yn y prosiect ac yn gryno beth yw eu pwrpas. Ni ddylid defnyddio mwy na 50 gair yn yr adran hon a dylid ei llenwi mor gryno â phosibl. Bydd digon o gyfle i ddisgrifio effaith y prosiect yn fwy manwl yn nes ymlaen.

2.3 LLEOLIAD Y PROSIECT: Dyma leoliad y prosiect

2.4 ASESIAD O'R ANGEN: YR ACHOS O BLAID Y PROSIECT: Defnyddiwch yr awgrymiadau i'ch helpu

i lunio naratif i gefnogi eich cais. Gwnewch yn siŵr eich bod yn dweud wrthym pam mae angen y prosiect, beth fydd effaith eich prosiect, a sut y bydd yn cael ei gyflawni. Er enghraifft, "bydd set newydd o bolion gôl ar gyfer ein dau dîm merched iau newydd yn sicrhau bod gennym yr offer cywir i gefnogi ein chwaraewyr newydd a sicrhau bod ein timau iau yn cael chwarae." Yn olaf, nodwch sut mae'r prosiect hwn yn cyd-fynd â'ch nodau tymor byr a thymor hir a amlinellir yn 1.5.

2.5 TARGEDAU'R PROSIECT:

Defnyddiwch y tabl i ddangos sut y bydd prosiect llwyddiannus yn effeithio ar y sefydliad. Ar gyfer prosiectau cynnal a chadw caeau chwarae glaswellt, cyfeiriwch lle bo modd at yr adroddiad a gafwyd gan Gynghorydd Caeau Chwarae Rhanbarthol GMA a allai ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol i helpu i gyfrif gemau ychwanegol a llai o ohiriadau

3. MATERION CYFREITHIOL

3.1 DIOGELWCH DEILIADAETH

3.1.1 Nodwch pa Ddeiliadaeth sydd gennych ar waith ar hyn o bryd yn y cyfleuster rydych yn bwriadu lleoli'r prosiect. Rhowch fanylion y math o ddiogelwch (Lesddaliad, Rhydd-ddaliad, ac ati), faint o amser sydd ar ôl ar y cytundeb Daliadaeth (os yw'n berthnasol), unrhyw gyfyngiad presennol sydd wedi'i gynnwys yn y cytundeb, yn enwedig unrhyw beth a fyddai'n effeithio ar y prosiect ac, os oes angen, Caniatâd y Rhydd-ddeiliad/Landlord i fwrw ymlaen â'r prosiect.

Corff Sylfaen Pêl-droed Cymru
Parc y Ddraig,
Pentref Chwaraeon
Rhyngwladol Casnewydd,
Casnewydd
NP19 4RA

Cymru Football Foundation
Dragon Park,
Newport International Sports
Village,
Newport
NP19 4RA

T 01633 282911

www.cff.cymru

3.1.2 Dywedwch wrthym sut y bydd yr offer a brynir drwy'r prosiect hwn yn cael ei storio, a chofiwch gynnwys llun o'r man storio hwn fel rhan o'ch dogfennau ategol.

3.1.3 Os yw eich clwb yn rhan o ymddiriedolaeth neu gymdeithas chwaraeon, neu'n gweithredu o dan un, rhowch fanylion diogelwch deiliadaeth yr ymddiriedolaeth. Rhaid i chi hefyd gyflwyno tystiolaeth o ymrwymiad ysgrifenedig gan yr ymddiriedolaeth sy'n cadarnhau deiliadaeth am gyfnod o 10 mlynedd o leiaf fel rhan o'ch dogfennau ategol.

3.2 CANIATÂD CYNLLUNIO

Nodwch a oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer y prosiect, a p'un a gafwyd caniatâd. Rhaid i unrhyw brosiect sy'n gofyn am gynhwysydd storio ddangos tystiolaeth o ganiatâd cynllunio cymeradwy neu dystiolaeth ysgrifenedig gan eich awdurdod lleol sy'n nodi nad oes angen caniatâd cynllunio ar gyfer eich prosiect. Bydd methu â darparu'r dogfennau hyn erbyn dyddiad cau'r ffenestr gyllido yn arwain at wrthod y cais yn awtomatig.

4. CYLLID

4.1 DADANSODDIAD MANWL O'R COSTAU:

Gan ddefnyddio'r tabl a ddarparwyd, rhestrwch bob agwedd rydych chi'n bwriadu ei phrynu fel rhan o'r prosiect hwn. Ar gyfer darparwr sy'n cael ei ffafrio, bydd angen o hyd i chi gyflwyno'r tri dyfynbris/tendr yn yr adran dogfennau ategol. Dylid dangos costau **HEB GYNNWYS TAW**.

- Gwnewch yn siŵr eich bod yn nodi pob eitem benodol rydych chi'n gofyn amdani ochr yn ochr ag enw'r cyflenwr sy'n cael ei ffafrio, a bod y rhain yn cael eu rhestru yn y dadansoddiad o gostau'r prosiect. Mae hyn yn bwysig i sicrhau ein bod yn gallu gweld y dadansoddiad o ran cyllid a'r eitemau y gofynnir amdanynt.

4.2 COST Y PROSIECT A TAW:

Dywedwch wrthym beth yw Atebolrwydd TAW y prosiect hwn, h.y. swm y TAW na fyddwch yn gallu ei adennill. Os ydych chi wedi cofrestru at ddibenion TAW, dylech gynnwys eich rhif cofrestru TAW a Datganiad Rheoli TAW gan ddilyn yr awgrymiadau a ddarperir. Wedyn dylech gynnwys cyfanswm cost y prosiect **GAN GYNNWYS TAW.**

4.3 COST Y PROSIECT A TAW:

Dywedwch wrthym beth yw Atebolrwydd TAW y prosiect hwn, h.y. swm y TAW na fyddwch yn gallu ei adennill. Os ydych chi wedi cofrestru at ddibenion TAW, dylech gynnwys eich rhif cofrestru

Corff Sylfaen Pêl-droed Cymru
Parc y Ddraig,
Pentref Chwaraeon
Rhyngwladol Casnewydd,
Casnewydd
NP19 4RA

Cymru Football Foundation
Dragon Park,
Newport International Sports
Village,
Newport
NP19 4RA

T 01633 282911

www.cff.cymru

TAW a Datganiad Rheoli TAW gan ddilyn yr awgrymiadau a ddarperir. Wedyn dylech gynnwys cyfanswm cost y prosiect **GAN GYNNWYS TAW**.

Dim ond clybiau neu sefydliadau sydd wedi cofrestru at ddibenion TAW ac sy'n gymwys i adennill TAW a ddylai lenwi'r adran Cofrestru TAW. Os nad yw eich sefydliad yn gallu adennill TAW, nodwch hyn drwy roi **"Amherthnasol"** yn yr adran berthnasol.

4.4 CAIS AM GRANT:

Dywedwch wrthym pa gais am Grant rydych chi'n ei wneud i Sefydliad Pêl-droed Cymru. Cofiwch ystyried yr adrannau ar ddechrau'r Ddogfen Ganllawiau hon sy'n cyfeirio at nod cyllid partneriaeth. Sylwch hefyd, os bydd eich cais yn llwyddiannus, bydd lefel y grant sy'n cael ei chymeradwyo yn seiliedig ar asesiad o'r angen ariannol.

4.5 CYLLID PARTNERIAETH:

CYFANSWM Y CYFRANIAD WEDI'I GADARNHAU: Dywedwch wrthym pa gyllid (gan gynnwys cronfeydd y clwb) sydd wedi dod i law, o ble y daethant, a'r cyfanswm. Er enghraifft, os oes gan y Clwb £1,000 ei hun, ac mae swyddogion y Clwb yn rhoi £2,000 tuag at y prosiect, gellir cofnodi'r rhain o dan GYFRANIAD Y CLWB o £3,000.

5. **DATGANIAD:** Defnyddiwch y lle gwag hwn i ddau lofnodwr y cais hwn lofnodi neu ddefnyddio llofnodion digidol.

6. **DOGFENNAU ATEGOL:** Gan ddefnyddio'r tabl a ddarparwyd, rhestrwch unrhyw ddogfen ategol y mae angen ei chyflwyno gyda'ch cais. Byddwch yn gallu cynnwys y dogfennau hyn fel atodiadau mewn unrhyw gais dros e-bost neu drwy'r post. Dylai hyn gynnwys y ddau ddyfynbris ar gyfer unrhyw eitemau y gofynnir amdanynt, unrhyw ganiatâd cynllunio perthnasol, dogfennau yswiriant, ac ati.